Sul Galwadau 2025: Adnodd Addoli

Cynhelir Sul Galwadau eleni ar Sul 4 Mai 2025. Diwrnod yw hwn i feddwl yn arbennig am ein galwadau amrywiol wrth ddilyn Iesu.

Cafodd yr adnoddau hyn eu llunio i'w defnyddio mewn ffordd hyblyg i drefnu addoliad sy'n addas i'ch cyd-destun chi. Mae croeso i chi ddewis yr elfennau sy'n fwyaf cymwys i chi – nid oes angen i chi ddefnyddio popeth sy'n cael ei gynnig yma. Mae'r darlleniadau ar gyfer addoliad Sul Galwadau eleni yn dilyn y Darlleniadur Cyffredin Diwygiedig a rhoddir nodiadau cefndirol – mae croeso i chi dynnu o'r rhain i lunio eich anerchiad neu eich pregeth eich hun. Mae pregeth gyflawn a baratowyd ar gael hefyd a gellir lawrlwytho honno o **methodist.org.uk/VocationsSunday**

Darlleniadau o'r Beibl

Actau 9:1-20 (Y Beibl Cymraeg Newydd, BCN)

1 Yr oedd Saul yn dal i chwythu bygythion angheuol yn erbyn disgyblion yr
Arglwydd, ac fe aeth at yr archoffeiriad 2 a gofyn iddo am lythyrau at y
synagogau yn Namascus, fel os byddai'n cael hyd i rywrai o bobl y Ffordd, yn
wŷr neu'n wragedd, y gallai eu dal a dod â hwy i Jerwsalem. 3 Pan oedd ar ei
daith ac yn agosáu at Ddamascus, yn sydyn fflachiodd o'i amgylch oleuni o'r
nef. 4 Syrthiodd ar lawr, a chlywodd lais yn dweud wrtho, "Saul, Saul, pam yr wyt
yn fy erlid i?" 5 Dywedodd yntau, "Pwy wyt ti, Arglwydd?" Ac ebe'r llais, "Iesu wyf
fi, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid. 6 Ond cod, a dos i mewn i'r ddinas, ac fe ddywedir
wrthyt beth sy raid iti ei wneud." 7 Yr oedd y dynion oedd yn cyd-deithio ag ef yn
sefyll yn fud, yn clywed y llais ond heb weld neb. 8 Cododd Saul oddi ar lawr,
ond er bod ei lygaid yn agored ni allai weld dim. Arweiniasant ef gerfydd ei law
i mewn i Ddamascus. 9 Bu am dridiau heb weld, ac ni chymerodd na bwyd na
diod.

10 Yr oedd rhyw ddisgybl yn Namascus o'r enw Ananias, a dywedodd yr
Arglwydd wrtho ef mewn gweledigaeth, "Ananias." Dywedodd yntau, "Dyma fi,
Arglwydd." 11 Ac meddai'r Arglwydd wrtho, "Cod, a dos i'r stryd a elwir y Stryd
Union, a gofyn yn nhŷ Jwdas am ddyn o Darsus o'r enw Saul; cei hyd iddo yno,
yn gweddïo; 12 ac y mae wedi gweld mewn gweledigaeth ddyn o'r enw Ananias
yn dod i mewn ac yn rhoi ei ddwylo arno i roi ei olwg yn ôl iddo." 13 Atebodd
Ananias, "Arglwydd, yr wyf wedi clywed gan lawer am y dyn hwn, faint o ddrwg
y mae wedi ei wneud i'th saint di yn Jerwsalem. 14 Yma hefyd y mae ganddo

awdurdod oddi wrth y prif offeiriaid i ddal pawb sy'n galw ar dy enw di." [15]Ond dywedodd yr Arglwydd wrtho, "Dos di; llestr dewis i mi yw hwn, i ddwyn fy enw gerbron y Cenhedloedd a'u brenhinoedd, a cherbron plant Israel. [16]Dangosaf fi iddo faint sy raid iddo'i ddioddef dros fy enw i." [17]Aeth Ananias ymaith ac i mewn i'r tŷ, a rhoddodd ei ddwylo arno a dweud, "Y brawd Saul, yr Arglwydd sydd wedi fy anfon—sef Iesu, yr un a ymddangosodd iti ar dy ffordd yma—er mwyn iti gael dy olwg yn ôl, a'th lenwi â'r Ysbryd Glân." [18]Ar unwaith syrthiodd rhywbeth fel cen oddi ar ei lygaid, a chafodd ei olwg yn ôl. Cododd, ac fe'i bedyddiwyd, [19]a chymerodd luniaeth ac ymgryfhaodd. Bu gyda'r disgyblion oedd yn Namascus am rai dyddiau, [20]ac ar unwaith dechreuodd bregethu Iesu yn y synagogau, a chyhoeddi mai Mab Duw oedd ef.

Ioan 21:1-19 (BCN)

[1]Ar ôl hyn, amlygodd Iesu ei hun unwaith eto i'w ddisgyblion, ar lan Môr Tiberias. A dyma sut y gwnaeth hynny. [2]Yr oedd Simon Pedr, a Thomas, a elwir Didymus, a Nathanael o Gana Galilea, a meibion Sebedeus, a dau arall o'i ddisgyblion, i gyd gyda'i gilydd. [3]A dyma Simon Pedr yn dweud wrth y lleill, "Rwy'n mynd i bysgota." Atebasant ef, "Rydym ninnau'n dod gyda thi." Aethant allan, a mynd i mewn i'r cwch. Ond ni ddaliasant ddim y noson honno.

[4] Pan ddaeth y bore, safodd Iesu ar y lan, ond nid oedd y disgyblion yn gwybod mai Iesu ydoedd. [5]Dyma Iesu felly'n gofyn iddynt, "Does gennych ddim pysgod, fechgyn?" "Nac oes," atebasant ef. [6]Meddai yntau wrthynt, "Bwriwch y rhwyd i'r ochr dde i'r cwch, ac fe gewch helfa." Gwnaethant felly, ac ni allent dynnu'r rhwyd i mewn gan gymaint y pysgod oedd ynddi. [7]A dyma'r disgybl hwnnw yr oedd Iesu'n ei garu yn dweud wrth Pedr, "Yr Arglwydd yw." Yna, pan glywodd Simon Pedr mai'r Arglwydd ydoedd, clymodd ei wisg uchaf amdano (oherwydd yr oedd wedi tynnu ei ddillad), a neidiodd i mewn i'r môr. [8]Daeth y disgyblion eraill yn y cwch, gan lusgo'r rhwyd yn llawn o bysgod; nid oeddent ymhell o'r lan, dim ond rhyw gan medr.[b]

[9] Wedi iddynt lanio, gwelsant dân golosg wedi ei osod, a physgod arno, a bara. [10]Meddai Iesu wrthynt, "Dewch â rhai o'r pysgod yr ydych newydd eu dal." [11]Dringodd Simon Pedr i'r cwch, a thynnu'r rhwyd i'r lan yn llawn o bysgod braf, cant pum deg a thri ohonynt. Ac er bod cymaint ohonynt, ni thorrodd y rhwyd. [12]"Dewch," meddai Iesu wrthynt, "cymerwch frecwast." Ond nid oedd neb o'r disgyblion yn beiddio gofyn iddo, "Pwy wyt ti?" Yr oeddent yn gwybod mai yr Arglwydd ydoedd. [13]Daeth Iesu atynt, a chymerodd y bara a'i roi iddynt, a'r pysgod yr un modd. [14]Dyma, yn awr, y drydedd waith i Iesu ymddangos i'w ddisgyblion ar ôl iddo gael ei gyfodi oddi wrth y meirw.

[15] Yna, wedi iddynt gael brecwast, gofynnodd Iesu i Simon Pedr, "Simon fab Ioan, a wyt ti'n fy ngharu i yn fwy na'r rhain?" Atebodd ef, "Ydwyf, Arglwydd, fe wyddost ti fy mod yn dy garu di." Meddai Iesu wrtho, "Portha fy ŵyn." [16]Wedyn

gofynnodd iddo yr ail waith, “Simon fab Ioan, a wyt ti'n fy ngharu i?” “Ydwyf, Arglwydd,” meddai Pedr wrtho, “fe wyddost ti fy mod yn dy garu di.” Meddai Iesu wrtho, “Bugeilia fy nefaid.” [17]Gofynnodd iddo y drydedd waith, “Simon fab Ioan, a wyt ti'n fy ngharu i?” Aeth Pedr yn drist am ei fod wedi gofyn iddo y drydedd waith, “A wyt ti'n fy ngharu i?” Ac meddai wrtho, “Arglwydd, fe wyddost ti bob peth, ac rwyt ti'n gwybod fy mod yn dy garu di.” Dywedodd Iesu wrtho, “Portha fy nefaid. [18]Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyt, pan oeddit yn ifanc, yr oeddit yn dy wregysu dy hunan, ac yn mynd lle bynnag y mynnit. Ond pan fyddi'n hen, byddi'n estyn dy ddwylo i rywun arall dy wregysu, a mynd â thi lle nad wyt yn mynnu.” [19]Dywedodd hyn i ddangos beth fyddai dull y farwolaeth yr oedd Pedr i ogoneddu Duw trwyddi. Ac wedi iddo ddweud hyn, meddai wrth Pedr, “Canlyn fi.”

Ffordd Fethodistaidd o Fyw

Caneuon ac emynau

Rydym ni’n dal i fod yn nhymor y Pasg, felly mae hi’n fuddiol i ni gynnwys emynau a chaneuon sy’n gweddu i hynny. Rydym ni wedi dewis detholiad o emynau a chaneuon traddodiadol a chyfoes i fod o ddefnydd addolwyr o bob grŵp oedran.

I agor gwasanaeth o addoliad

Halelwia, Halelwia! (*Caneuon Ffydd* 408)

Hwn yw y dydd (*CFf* 51)

Cenwch i’r Arglwydd (*CFf* 37)

Come people of the risen King: youtube.com/watch?v=j8DkXwTymbI [fideo â geiriau]

I cast my mind to Calvary: youtube.com/watch?v=LqBpifDpNKc [fideo â geiriau]

Yn dilyn y darlleniadau o’r Beibl

Hwn ydyw’r dydd y cododd Crist (*CFf* 543)

I Dduw bo’r gogoniant (*CFf* 563)

Gras, O’r fath beraidd sain (*CFf* 161)

Dof fel yr wyf (*CFf* 765)

Os gofyn rhywun beth yw Duw (*CFf* 171)

Amazing Grace (My chains are gone): youtube.com/watch?v=3MZgXXUW08Q [fideo â geiriau]

Blinded by your grace Part 2 (Stormzy) – gwahanol fersiynau yma:

- Stormzy ar BBC Radio 1: youtube.com/watch?v=OuTuGS3hXtM
- Côr Kingdom: youtube.com/watch?v=ciy7XqZZmY0
- Geiriau yma: lyrics.com/lyric/33710122/Blinded+by+Your+Grace

Ymateb

Cymer di fy mywyd i ('Mwy o glap a chân' 59)

Addo wnaf i ti, fy Nuw (*CFf* 766)

Cymer, Arlwydd, f'einioes i (*CFf* 767)

Canaf yn y bore (*CFf* 118)

A ddoi di i'm dilyn i (*CFf* 801)

Gracious God, you call your people (gwefan yn unig). Geiriau a cherddoriaeth yma: methodist.org.uk/for-churches/resources/posts/gracious-god-you-call-your- people-website-only/

And still he calls us (Tôn: *H&P* 153: Tell me the stories of Jesus) (gwefan yn unig). Geiriau yma: methodist.org.uk/for-churches/resources/posts/and-still-he-call- us-website-only/

I derfynu

I ti dymunwn fyw, O Iesu da (*CFf* 757)

Am ffydd, nefol Dad, y deisyfwn (*CFf* 792)

Un cam bach ar hyd y byd yr af (*CFf* 800)

Ymwêl â ni, O Dduw (*CFf* 607)

Yet not I but through Christ in me. Fideo yma: youtube.com/watch?v=hwc2d1Xt8gM

Nodiadau cefndirol i'r darlleniadau

Actau 9:1-20: Un o dri adroddiad am dröedigaeth/galwad Paul

Yr hanes hwn yw un o'r tri adroddiad yn Actau (penodau 9, 22 a 26) lle ceir yr hanes am dröedigaeth neu alwad Paul. Mae'r adroddiadau yn pwysleisio gwahanol bethau (er enghraifft, mae Ananais yn ymddangos ym mhenodau 9 a 22, ond nid ym mhennod 26), sy'n awgrymu bod yr hanes am gyfarfyddiad Paul â'r Crist atgyfodedig yn weddol gyfarwydd ac yn dod o fwy nag un ffynhonell, yn rhan o'r traddodiad llafar. O gofio mai Luc sy'n cael ei ystyried yn unig awdur Llyfr yr Actau, ac o gofio iddo fod yn ymchwilydd ac awdur gofalus iawn, mae hi'n debygol y byddai Luc wedi gofalu am gynnwys y tri adroddiad hyn am y ffyrdd y maen nhw'n ategu ei gilydd. Felly, un ffordd o edrych ar y pwyslais gwahanol yn y tri hanes yw cydnabod eu bod yn cyflwyno

stori fwy cyflawn o'r arlliwiau yn nhröedigaeth a galwad Paul, ac yn rhoi portread mwy cyflawn o'i gymhlethdodau ef yn unigolyn.[1]

Tröedigaeth neu alwad?

Bu llawer o ddadlau ymysg ysgolheigion ai hanesyn am droëdigaeth neu am alwad yw hwn: yn y pen draw (gweler isod er hynny) mae'n debyg y gellir deall y stori hon fel stori am alwad Paul, yn hytrach na stori am droëdigaeth, am nad oedd Paul yn ystyried ei fod yn gadael un grefydd am un arall.[2]

Datguddiad nodweddiadol o Dduw…

Caiff y stori hon ei chyflwyno fel gwrthdroad rhyfeddol o'r hyn a fu ynghynt, pryd caiff bywyd unigolyn annhebygol ei newid trwy ymyriad uniongyrchol. Fel hyn, mae hi'n dilyn patrwm nodweddiadol mewn adroddiadau hynafol iawn, pan gaiff gelynion Duw eu rhwystro yn y ffordd hon, neu pan gaiff proffwydi gyfarwyddiadau oddi wrth Dduw (gweler Moses a'r berth yn llosgi yn Ecsodus 4, er enghraifft).[3] Yng nghanol aflaredd y sŵn a'r gweithredu, serch hyny, chwedl yr awdur Holladay: "Yn fwy pwysig na'r hyn a welir yw'r hyn a glywir: sef galwad broffwydol".[4] Stori yw hon y mae Paul yn marw gyda Christ (adnod 20) ac o'r foment honno y mae ei fywyd cyfan yn ymatebiad i gariad Duw.[5]

Swyddogaeth Paul

Yn bwysig iawn, mae'r adroddiad hwn yn datblygu dealltwriaeth ddiwinyddol Luc am Paul yn unigolyn a ddewisir gan Dduw i fod yn apostol i'r Cenhedloedd (adnodau15-16).[6] Mae un cwestiwn diddorol, serch hynny, yn codi o hyn: sut mae Paul yn gallu troi mor gyflym i fod yn ddiwinydd mawr fel ydoedd? Pwy oedd yn ei gefnogi ef drwy hyn? 'Wyddom ni ddim, ond mae rhywun yn meddwl tybed...[7]

Fideo

Mae'r darn hwn o ddarlith gan yr awdur a'r diwinydd Dr Paula Gooder ar Paul (*A Life Turned Upside Down: Paul of Tarsus*) yn ddefnyddiol iawn wrth grynhoi'r ddadl am droëdigaeth/galwad, a nodi arwyddocâd yr hyn a ddigwyddodd i Paul ar y Ffordd i Ddamascus ar gyfer ei weinidogaeth a ffurfiad yr Eglwys Fore: youtu.be/J8lQcg1tOJI?si=TryzbyXKmnf2gJiU&t=1910 (31:50 – 39:10), ond fe'ch anogir i wylio'r fideo i gyd am gyflwyniad ardderchog i Paul.

Ioan 21:1-19

Stori 1: Ioan 21:1-13 – Dalfa wyrthiol o bysgod

Dyma'r unig dro yn Efengyl Ioan lle mae'r disgyblion yn ymddangos fel pysgotwyr, eu gwaith dewisedig. Ceir tebygrwydd yma i Luc 5:1-11, sy'n sôn hefyd am stori galw'r disgyblion. Mae hyn yn cysylltu â'r cwestiwn mwy eang ynglŷn â phwy yw awdur pennod 21 Efengyl Ioan, a'r cysylltiadau posibl â'r

ddwy stori. Ceir newid amlwg yn arddull a delweddau diwinyddol pennod 21, ac mae hyn wedi arwain at drafodaeth eang ynglŷn â'r cwestiwn ai'r un unigolyn sydd wedi ysgrifennu'r bennod hon ar yr un pryd â gweddill yr Efengyl. Felly, fe geir cwestiwn o ran a ddylid darllen y darn hwn yng nghyd-destun mwy eang Efengyl Ioan, neu fel darn o waith sydd â'i hanes a'i ymagwedd ei hun.[8] Beth yw eich barn chi? A pha wahaniaeth yn eich barn chi a fyddai awduraeth rhywun gwahanol yn ei wneud? Pam allai hynny fod?

Cyfeirio at Iesu

Mae'r darlleniad ar gefndir yr atgyfodiad, y greadigaeth newydd, sy'n dod yn annisgwyl i fyd y disgyblion pan oedden nhw'n drist, yn bryderus ac mewn cywilydd.[9] Mae'r cyfarfyddiad ychydig yn dawedog ac annifyr. Yn y pen draw, mae yna ddalfa fawr o bysgod ac efallai ein bod ni'n canfod tir cyffredin yma gyda gweddill Efengyl Ioan o ran pwrpas: ystyr y wyrth yw cyfeirio at Iesu, a ddatguddir a'i gydnabod yn Arglwydd.[10]

Y pryd bwyd: yn bendithio ein gwaith

Y pwynt canolog yn y rhan hon o'r stori, fel sy'n digwydd mor aml, yw'r pryd bwyd y mae'r Iesu yn ei baratoi a'i rannu, y lletygarwch y mae'r Iesu yn ei gynnig i'r disgyblion. Yn ddiddorol, mae eiconograffeg Gristnogol gynnar yn cyflwyno'r Cymun fel pryd bwyd o bysgod a bara. Felly, mae hwn yn dod yn bryd bwyd sanctaidd, Cymun Bendigaid, yr ydym ni'n cael gwledda ynddo yn nheyrnas Dduw.[11] Mae hefyd yn bendithio ein gwaith a'n hymdrechion ni, ac yn eu hailgreu yn rhoddion trwy lawnder gras Duw.

Stori 2: Ioan 21:15-19 – Iesu a Phedr

Efallai mai'r hyn sy'n coroni'r ail ran o'r darlleniad yw'r ymddiddan rhwng Iesu a Phedr, y gellir ei ddarllen fel ailgymhwyso Pedr gan Iesu, a'i gomisiynu ganddo. Y mae'r stori hon yn y traddodiad Ioanaidd sy'n mynegi bod dilynwyr Iesu yn caru Iesu drwy garu ei gilydd.[12]

Mae dau air Groeg am 'gariad' yn cael eu defnyddio yn ystod cyfarfyddiad Iesu a Phedr: sef *philos* (cyfeillgarwch) ac *agape* (ewyllys da neu hunanaberth). Mae hi'n werth nodi bod y ddau air yn cael eu defnyddio yn gyfnewidiol yn Efengyl Ioan ac yn yr Eglwys Fore.[13] Yn y fan hon efallai, mae'r ystyr ddiwinyddol i'w chanfod wrth feddwl pam y gellir defnyddio'r ddau air yn gyfnewidiol. Beth ydym ni'n ei ddysgu am weledigaeth Ioan o'r briodoledd honno o gymdeithas Gristnogol gariadlon drwy ei ddefnydd cyfnewidiol o *philos* ac *agape*? Pam nad yw un gair yn unig yn ddigon i gyfleu hynny?

Sut mae Iesu yn cyfarfod â ni…

Ond mae natur y cyfarfyddiad yn bwysig hefyd. Mae'r diwinydd Tom Wright yn mynegi: "Mae'r ymddiddan byr rhwng Iesu a Phedr yn Ioan 21 yn cofnodi un o'r cyfarfyddiadau mwyaf cynhyrfus a fu erioed. Mae yna gariad sy'n gynhesrwydd mawr a chynhyrfus yn tarddu o'r Iesu. Ond mae'r cariad hwn yn gryf, yn nerthol, yn newid bywydau, yn cyfeirio bywydau. Mae'r greadigaeth newydd wedi dechrau, a'r grym sy'n rhoi symbyliad iddo yw cariad."[14]

Yn olaf, mae hi'n werth dweud nad yw cariad yn cynnig unrhyw loches rhag perygl na dioddefaint, fel gwelwn ni wrth i Iesu ragfynegi lladd Pedr mewn dull treisgar.

Ymraniad a rhoddion

Mae'r Disgybl Annwyl, efallai, yn dawel a myfyrgar tra bod Pedr yn llawn ynni a gweithredu. Mae'r darlleniad yn awgrymu bod peth ymraniad ymysg y disgyblion rhwng y Disgybl Annwyl a Phedr. Mae'r Iesu yn gwrthod y gystadleuaeth hon mewn ffordd rymus iawn yn adnod 22[15] (ar ôl ein darlleniad penodedig ni ddod i ben). Efallai fod angen i'r Eglwys fod yn fyfyrgar i roi sail i'r gweithredu, ond mae'n rhaid wrth weithredu hefyd i roi cyflawnder i'r myfyrio.

Fideo

Mae'r fideo hwn, gan Tom Wright, yn ymchwilio i ail ran y darlleniad o'r Efengyl: youtube.com/watch?v=sAb7p8IsqqQ

Cwestiynau i'w trafod

- Gwrandewch ar y darn hwn o farddoniaeth: *Recognising You: Easter Poem,* sy'n cysylltu â'n darlleniad o Ioan 21: youtube.com/watch?v=j12TJruN7fI
  - Myfyriwch ar y gerdd.
    A ydych chi'n clywed Iesu yn galw arnoch chi bob amser?
  - Ym mha le ydych chi'n canfod Iesu yn eich bywyd bob dydd?
- Meddyliwch am y disgyblion amrywiol yn yr Efengyl (y Disgybl Annwyl a Phedr yn arbennig felly). Mae'r naill yn ddistaw a myfyrgar, y llall yn llawn ynni a gweithredu. I ba un ydych chi'n teimlo yn fwyaf tebyg? Sut allai un ohonyn nhw fod yn ysbrydoliaeth i chi wrth fod yn ddisgybl? Beth allech chi ei ddysgu oddi wrth y disgybl nad ydych chi'n teimlo mor debyg iddo? Sut mae dysgu o hynny i ddatblygu wrth fod yn ddisgybl?
- Chwaraewch gêm "Y lleiaf tebygol" yn yr eglwys. Fe allech chi ofyn i bobl beth maen nhw'n ei gredu y maen nhw'n "lleiaf tebygol o'i wneud" (ee chwarae pêl-droed i Gymru neu greu gwefan, ac ati.) Neu drwy ddefnyddio enwogion, ee "X yw'r lleiaf tebygol o…"

- Yn ein storïau ni, galwodd Duw ar bob math o bobl annhebygol i wasanaethu Duw a rhannu cariad Duw: Paul – yr erlidiwr; Ananais, y disgybl drwgdybus o Ddamascus; Pedr – disgybl byrbwyll. Yn y Beibl yn fwy eang, mae Duw yn galw pobl annhebygol: yr hen begoriaid Abraham a Sara i fynd i wlad newydd a chael plentyn; y disgyblion, nid meddylwyr mwyaf yr oes ond pobl gyffredin yn gwneud gwaith cyffredin; Esther – i herio brenin gan ei rhoi ei hunan mewn perygl einioes a newid gorchymyn y brenin, mewn cyfnod pan oedd hynny'n annychmygol i wraig. Felly, pa un o'r rhain neu o gymeriadau eraill y Beibl sy'n atseinio yn eich profiad chi? Ym mha ffordd allai Duw fod yn eich galw chi?
- Trafodwch gwestiwn mae Gordon Smith yn ei ofyn yn ei lyfr *Your Calling Here and Now* (adnoddau yn methodist.org.uk/Vocations-Sunday): Beth mae Duw yn ei wneud i ddal eich dychymyg chi?
- Trafodwch yr hyn a glywsoch chi Dduw yn ei fynegi i chi? Beth sy'n eich dychryn chi rhag ymateb i Dduw?

Myfyrdod gweddigar ar gelfyddyd

Edrychwch ar *The Cross Over the City* gan Michael Edmonds isod.



Gellir arddangos y llun hwn ot methodist.org.uk/faith/the-methodist-modern-art-collection/browse-the-collection/the-cross-over-the-city-michael-edmonds/

Ystyriwch y cerrig mosäig adlewyrchol aur, du, coch, gwyrdd, melyn a glas sy'n rhedeg drwy'r canol, ynghyd â rhai darnau o 'lwch aur' sy'n britho arwyneb tywyll, sy'n rhoi ymdeimlad gwerthfawr o gyfoeth pefriol i'r darlun.

- Pam yn eich barn chi y rhoddodd Edmonds fosäig lliwgar ar y groes a llwch aur ar y murlun?
- Pe byddech chi'n gwneud y llun hwn, pa wedd a fyddai ar y groes uwchben eich rhan chi o'r dref, neu ddinas, neu bentref? (Fe allech chi fod yn awyddus i greu eich darlun neu furlun eich hunain mewn addoliad: beth fyddai'r wedd arno yn eich lleoliad chi?)
- Ym mha ffordd y cawsoch chi eich galw i fod yn fosäig lliwgar ac yn llwch aur yn eich cymdeithas chi?

Gweithgareddau ymarferol

Fideo animeiddiad clai

Dangoswch y fideo animeiddiad clai hwn, sy'n portreadu stori troëdigaeth/galwad Paul: youtube.com/watch?v=z-r0HjxJI_8 a/neu'r fersiwn hwn o'r darlleniad gyda darnau Lego: youtube.com/watch?v=18Ks1GbKqsI

Fe allech chi ymateb i'r fideos hyn drwy ofyn:

- Beth oedd yn drawiadol i chi yn y stori hon?
- Pa ran o'r stori oedd eich ffefryn chi? Pam?
- Pe byddech chi yno ac yn gallu gofyn rhywbeth i rywun yn y stori, i bwy y byddech chi'n gofyn a beth fyddai eich cwestiwn?
- Os mai dyma Newyddion Da Duw, sydd i newid ein bywydau, beth yw'r effaith nawr ar ôl i ni ei glywed?

Darlleniad byw

Darlleniad byw Ioan 21: engageworship.org/ideas/john-21-active-reading

Gweithgareddau i osod yr olygfa

Bydd angen:

- Clytiau neu bapur i lunio ffordd droellog. Golau neu fflashlamp. Ychydig o fwyd a diod. Sbectol. Drwm/bocs/tambwrinau i wneud sŵn tarannau mawr.
- Clytiau i lunio traeth gyda môr a thywod. Rhwydi pysgota, cychod tegan/dingis, ac ati.
- Gosodwch y ddwy olygfa (un i gyfleu bob darlleniad) gan ddefnyddio'r clytiau a'r propiau eraill yn gyfochrog neu gyferbyn â'i gilydd yn y capel
- Darllenwch stori troëdigaeth Paul. Mae fersiynau amrywiol i'w cael ar y we, gellir defnyddio Beibl.net

Ar gyfer y dalleniad o Lyfr yr Actau, defnyddiwch y propiau i ailgreu galwad Duw ar Paul. Gwnewch yr un fath ar gyfer y darlleniad o Efengyl Ioan: fe ddylai'r olygfa fod yn fwy tawedog a myfyrgar. Mae *Stranger on the Shore* gan Acker Bilk yn gweithio yn dda iawn yn gerddoriaeth gefndir. Gellir cael y gân ar-lein.

Gweithgaredd â map

Dangoswch fap mawr o'r byd yn y capel. Siaradwch am y mathau amrywiol o daflunio map yr ydym ni'n edrych arnyn nhw, ond heb sylweddoli hyd yn oed fod rhai rhagdybiaethau ar waith (gweler nodiadau'r bregeth). Pa ragdybiaethau sydd gennym ni o ran galwad Duw i bobl, heb sylweddoli eu bod nhw gennym ni, hyd yn oed? A yw'r stori am alwad Saul/Paul o gymorth neu'n heriol o ran y rhagdybiaethau hynny?

Gweithgaredd 'Post-its'

Ar gyfer y gweithgarwch hwn, bydd angen nodau 'Post-it' ar siapiau pigog neu swigod siarad. Gofynnwch i bobl ystyried sut mae Duw wedi ac yn eu galw. Ar y nodau pigog, dylid ysgrifennu'r ffyrdd swnllyd o alw, fel gyda galw Paul yn Actau. Ac ar y nodau swigod siarad, y galwadau tawel, fel sydd yn Ioan. Rhowch anogaeth i bobl fynd â'u nodau adref a'u gludo yn rhywle i'w hatgoffa o sut y mae Duw yn eu galw nhw.

Gweithgaredd 'Beth yw ystyr galwad i mi?'

Ysgrifennwch y gair 'galwad' ar daflen fawr o bapur. Eglurwch fod hwnnw'n air braidd yn 'ddiwinyddol' sy'n gallu codi ofn ar bobl. Gofynnwch i bobl ysgrifennu ar y papur o amgylch y gair yr hyn y mae 'galwad' yn ei olygu iddyn nhw ac wedyn egluro dealltwriaeth yr Eglwys Fethodistaidd (a gymerir o'r adran galwadau ar wefan y Methodistiaid lle gellir ei darllen ar ei hyd):

> *"Ystyr galwad yw'r hyn y mae Duw wedi ein galw ni i'w fod a'i wneud. I rai, mae honno'n alwad benodol i fath arbennig o weinidogaeth, yn neu ar ran, yr Eglwys. I eraill, mae honno'n gallu bod i wasanaethu Duw drwy fod yn ddisgybl ffyddlon yn eu bywydau bob dydd."*

A yw hyn o gymorth i ddealltwriaeth pobl?

Gweithgaredd fideo

Dangoswch un neu ragor o'r fideos #LoveYourCalling hyn o Fethodistiaid yn trafod pam maen nhw'n caru eu galwad i waith arbennig yn yr Eglwys:
youtube.com/playlist?list=PLoWWaJT3-_P67oheAb8us0FC2kjxYeX-_
licc.org.uk/ourresources/transformingwork

Gwahoddwch y gynulleidfa i fyfyrio a thrafod a ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw wedi eu galw i swyddogaeth yn yr eglwys yn gyfochrog neu yn hytrach na swyddogaethau eraill. Gan fyfyrio ar yr ail fideo, beth yw'r cyfleoedd sydd tu allan i'r eglwys o fod yn ddisgybl gwirioneddol?

Brecwast

Mae ailgreu'r brecwast ar y traeth yn ffordd rwydd ac effeithiol o gael pobl i drafod sut mae Duw yn eu galw nhw. Gallai'r brecwast fod yn un syml iawn: te, coffi, sudd oren a chroisants (peidiwch ag anghofio am rai heb laeth neu glwten er mwyn i bawb allu cael rhywbeth). Trafodwch rai materion wrth y byrddau:

- I ble y byddwch chi'n mynd bob dydd?
- Â phwy y byddwch chi'n cyfarfod?
- Sut allwch chi "borthi ŵyn Duw" drwy ddangos cariad Duw i eraill?

Ffyrdd i bobl ymateb

Codwch garnedd

Mae pob unigolyn yn cynnig carreg er mwyn i'w rhoddion gynorthwyo wrth godi carnedd, i atgoffa pobl bod pob unigolyn yn cyfrannu i daith cymdeithas wrth geisio bod yn ffyddlon i Dduw ar yr amser hwn, yn y lle hwn.

Gweddi troi rownd

Darllenwch y weddi hon o ymatebiad gyda'ch cynulleidfa chi. Ychwanegwch y weddi ar sleid er mwyn i bawb ymuno yn y llinell mewn print bras:
Arhoswch ar eich eistedd neu codwch ar eich traed fel gallwch chi.

Trowch eich pen neu eich corff i'r chwith. Myfyriwch ar yr hyn sy'n eich rhwystro chi neu'n eich pryderu chi o ran dilyn galwad Duw.

Nawr trowch eich pen neu eich corff at flaen y capel. Edrychwch ar y groes wag. Cododd Iesu. I sut fath o fywyd newydd ydych chi'n cael eich galw?

Nawr trowch eich pen neu eich corff i'r dde. Dyma'r llwybr y cawsoch eich galw gan Dduw i'w gerdded. Sut mae hynny'n gwneud i chi deimlo?

Dywedwn gyda'n gilydd: **Dduw, fe'm gelwaist i. Helpa fi i droi fy mywyd at dy lais a dilyn ar ôl dy alwad i mi. Amen.**

Mapio eich cymdeithas

Arddangoswch luniau neu fap o'ch eglwys neu gymuned leol nu o'r byd, gyda cherddoriaeth dawel yn y cefndir. Gofynnwch i'r gynulleidfa fyfyrio ar y cwestiwn: Ym mha le y mae fy ngalwad i'n cwrdd ag anghenion mwyaf ein heglwys/cymdeithas/byd ni?

Gweddïau galwadau'r Eglwys Fethodistaidd

Addoliad

Dduw sy'n galw ac arfogi,
Ceisiwn di, nid am yr hyn a allwn ei wneud er dy fwyn,
Ond i ymateb i'th gariad aruthrol yn ein bywydau.
Dathlwn dy gariad hollgynhwysol a'r rhai a'th wnaeth yn hysbys i ni.

Cydnabyddwn fod dy Ysbryd wedi gweithio drwy bobl ddirifedi i wneud dy iachawdwriaeth yn hysbys i ni a chymerwn ennyd i gydnabod hyn.

Gogoneddwn di am dy gariad a wnaethpwyd yn
hysbys yn Iesu, yr Un sy'n galw cymaint o wahanol
bobl, mewn llu o wahanol ffyrdd a chyd-destunau
amrywiol.

Boed i ni ymagor i'th gariad a'th arweiniad er mwyn i ni ymateb i'th alwad di a chynorthwyo eraill i adnabod dy gariad. **Amen.**

Cyffes

Dduw'r cariad anferthol a maddeuant,
Maddau i ni pan geisiwn osgoi dy ganlyn,
maddau i ni pan fyddwn ni'n anwybyddu dy alwad yn
ein bywydau,
maddau i ni pan fo'r prysurdeb yn boddi dy lais bach tawel a phan fyddwn ni'n ceisio mynd ein ffyrdd ein hunain.
Maddau i ni pan fydd ein gweithredoedd yn rhwystro eraill rhag ymateb i alwad Duw yn eu bywydau. **Amen.**

Datganiad maddeuant

Nid yw cariad Duw er dy fwyn yn ddibynol ar yr hyn a wnei.
Nid yw cariad Duw er dy fwyn yn lleihau pan fyddi di'n colli golwg arno nac yn colli dy ffordd. Mae cariad Duw yn aros fel erioed o'r blaen ac y bydd byth.
Maddeuwyd i ti ac mae breichiau tragwyddol Duw yn gafael yn
gariadus ynot. Diolch fo i Dduw. **Amen.**

Diolchgarwch

Dduw pawb,
Y golau tu hwnt i'r bydysawd,
sy'n disgleirio ar y byd hwn â chariad a derbyniad,
rhown ddiolch i ti am yr holl bobl sydd wedi ymateb i'th alwad. Rhown ddiolch am bobl sydd wedi cael eu galw i weinidogaeth ordeiniedig gan gysegru eu bywydau i wasanaethu'r Eglwys, a rhoi pobl eraill yn gyntaf.

Rhown ddiolch am bobl a alwyd i wahanol swyddogaethau yn yr Eglwys: arloeswyr, pregethwyr, efengylwyr, gweinyddwyr, glanhawyr, arweinyddion addoliad, cerddorion, ymddiriedolwyr, stiwardiaid, ysgrifenyddion, caplaniaid, gweithwyr lleyg, bugeiliaid lleyg lleol, gweithwyr plant ac ieuenctid...

Rhown ddiolch am bobl a alwyd i'th wasanaeth drwy rannu eu doniau mewn llawer o fannau amrywiol: lletygarwch, dysgu, annog, gweinyddu, canu, gofalu, rhoi, helpu, arwain, darllen, anwyldeb, coginio, pobi, gwasanaethu, bod yn greadigol...

Rhown ddiolch yn arbennig i ti am bobl sydd, ar ôl ymateb i alwad Duw, wedi gallu bod yn ysbrydoliaeth i ni ac wedi ein helpu ar daith ein ffydd...

Cyfnod o dawelwch pryd gellir annog pobl i enwi rhai neu ysgrifennu eu henwau.

Dduw sy'n caru ac yn rhoi gallu,
Rhown ddiolch i ti am rodd dy Eglwys,
lle rhoddir cyfleoedd a chefnogaeth i bobl ar gyfer hyfforddiant a datblygiad ei gweinidogaeth a'i chenhadaeth,
lle gallant ymateb i'th alwad a chael eu harfogi gan dy Eglwys.

Rhown ddiolch yn arbennig i ti am bobl sy'n annog ac yn galluogi eraill yn eu galwadau a'u galwedigaethau, gan gydnabod a datgan y doniau a roddais a rhoi'r gallu i eraill ymateb a'th ganlyn di.

Rhown ddiolch i bobl Dduw i gyd. **Amen.**

Cymraeg: media.methodist.org.uk/media/documents/copy-of-vocations-prayers- of-adoration-and-confession-1.pdf

Eiriolaeth

Dduw graslon,
Gweddïwn yn dy bresenoldeb am anghenion y byd,
gan gydnabod ein gwaith wrth ymateb i'th gariad, a chan ofyn am gymorth yr Ysbryd Glân wrth i ni weddïo.
Gweddïwn dros rai sy'n profi ymraniad a chasineb...
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,
galw di bobl o'th eglwys i fod o gymorth.

Gweddïwn droi rai sy'n wynebu newyn, digartrefedd, diweithdra, cyni...
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,
galw di bobl o'th eglwys i fod o gymorth.

Gweddïwn dros rai sy'n pryderu, gofidio, flinedig, dan bwysau, mewn salwch...
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,
galw di bobl o'th eglwys i fod o gymorth.

Gweddïwn dros rai sy'n herio anghyfiawnder, sy'n codi cri,
sy'n llefaru geiriau proffwydol, sy'n ymgyrchu dros fyd gwell...
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,
galw di bobl o'th eglwys i fod o gymorth.

We pray for those who in responding to your love find themselves hated, despised, marginalised...
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,
galw di bobl o'th eglwys i fod o gymorth.

We pray for those who do not know your love, who live without recognising they are cherished, affirmed and accepted through Jesus Christ...
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,
galw di bobl o'th eglwys i fod o gymorth.

We pray for those who respond to your calling even when it is challenging, or means they have to do things that are uncomfortable...
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,
galw di bobl o'th eglwys i fod o gymorth. Amen.

Cymraeg: media.methodist.org.uk/media/documents/copy-of-vocations-prayers- of-thanksgiving-1.pdf

Fel dewis arall, mae gan Michelle Torigian hefyd gyfres o weddïau galwadau hefyd y gallwch chi eu defnyddio i feithrin ymdeimlad o sut y gall pobl ddilyn galwad y tu allan i'r Eglwys: michelletorigian.com/category/vocation-prayers

Wrth ymadael

Defnyddiwch y weddi hon wrth ymadael ar ddiwedd y gwasanaeth. Dodwch y weddi ar sleid er mwyn i bawb ymuno yn y llinell mewn print bras:

> A ddaeth ein haddoliad i ben? **Naddo: mae ein bywydau yn gyfan yn addoliad.** Ewch gan hynny i addoli Duw a rhannu cariad Duw yn eich galwad.
>
> *Naill ai* yn enw'r creawdwr, y gwaredwr a'r cynhaliwr.
>
> *neu* Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân

Cyfeiriadau

1. Robert W.Wall, 'Acts 9:1-20 Exegetical Perspective' yn David Bartlett a Barbara Taylor Brown (gol.) *Feasting on the Word: Year C Volume 2* (2009) Gwasg Westminster John Knox: Louisville, Kentucky

2. John Ziesler, *Pauline Christianity* (1990) Rhydychen: OUP

3. Lewis S Mudge, 'Acts 9:1-20: Theological Perspective' yn David Bartlett a Barbara Taylor Brown (gol.) *Feasting on the Word: Year C Volume 2* (2009) Gwasg Westminster John Knox: Louisville, Kentucky

4. Carl R Holladay, 'Acts' in James L. May (ed) *Bible Commentary: Revised Edition* (2000) Harper Collins: San Francisco

5. Morna Hooker, *Studying the New Testament* (1989) Epworth: Llundain

6. Eto

7. Mudge, 'Acts 9:1-20: Theological Perspective'

8. Lewis R Donelson, 'John 20:1-19: Exegetical Perspective' yn David Bartlett a Barbara Taylor Brown (gol.) *Feasting on the Word: Year C Volume 2* (2009) Gwasg Westminster John Knox : Louisville, Kentucky

9. Tom Wright, *Simply Jesus: Who He Was, What He Did, Why It Matters* (2011) SPCK: Llundain

10. Donelson, 'John 20: 1-19: Exegetical Perspective'

11. Eto

12. Eto

13. Eto

14. Wright, *Simply Jesus*, t.190

15. Donelson, 'John 21: 1-19: Exegetical Perspective'

Cymerir pob dyfyniad o'r Beibl o'r Beibl Cymraeg Newydd Argraffiad Diwygiedig, Hawlfraint © 1988, 2004 Cymdeithas y Beibl.

Defnyddiwyd â chaniatâd. Cedwir pob hawl yn fyd-eang.

Os hoffech ofyn am yr adnodd hwn mewn fformat arall,
cysylltwch â ni ar gyfer trafod eich anghenion yn publishing@methodistchurch.org.uk
Cyhoeddwyd gan yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain Fawr.

Rhif elusen gofrestredig 1132208

© Yr Ymddiriedolwyr at Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd 2025